Colofn C

CELF & DYLUNIO L3

Celf, Crefft a Dylunio
Mae'r cwrs yma yn eang ac yn cynnig hyblygrwydd o ran cynnwys a dull.
Gall dysgwyr archwilio meysydd sy'n gorgyffwrdd a/neu gyfuniadau o ddisgyblaethau o
• Celfyddyd Gain
• Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol
• Dylunio Tecstilau
• Cyfathrebu Graffig
• Dylunio Tri Dimensiwn
• Ffotograffiaeth.

Lluniwyd y cyrsiau UG/Safon Uwch CBAC Celf a Dylunio i alluogi dysgwyr i ennill profiad dysgu dilyniannol o sylfaen rhagarweiniol eang celf, crefft a dylunio ar UG, i fwy o arbenigaeth a chyrhaeddiad yn Safon Uwch.
Mae'r UG yn cynrychioli'r flwyddyn gyntaf o gymhwyster Safon Uwch dwy flynedd ond gellir ei astudio ar wahân.

UG Uned 1
Ymholiad Creadigol Personol - Asesiad diarholiad
40% o'r cymhwyster 160 marc
Mae'r Ymholiad Creadigol Personol yn cynnwys portffolio ymchwiliol, estynedig a chanlyniad/au yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd yn bersonol i'r dysgwr. Rhaid i'r Ymholiad gyfuno gwaith beirniadol, ymarferol a damcaniaethol.
• Asesir hyn fel cyfanwaith gan ddefnyddio'r amcanion asesu. Bydd gofyn i ddysgwyr ddethol, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith i'w asesu.

U2 Uned 2
Ymchwiliad Personol - Asesiad diarholiad
36% o'r cymhwyster 160 marc
Yn cynnwys **dwy** ran gyfansoddol integredig:
1. prif portffolio ymchwiliol beirniadol, ymarferol a damcaniaethol a chanlyniad/au yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd ag arwyddocâd personol.
2. Elfen ysgrifennu estynedig o leiafswm o 1000 gair. Gallai gynnwys delweddau a thestunau, ac mae'n rhaid iddo ymwneud yn amlwg â gwaith ymarferol a damcaniaethol gan ddefnyddio geirfa weithiol a thermau arbenigol priodol.
Asesir y gwaith ymarferol/damcaniaethol a'r elfen ysgrifenedig gyda'i gilydd gan ddefnyddio'r amcanion asesu. Bydd gofyn i ddysgwyr ddethol, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith i'w asesu.

• Bydd y dysgwr a'i athrawon yn penderfynu ar themâu unedau 1 a 2 a'r gwaith yn cael ei asesu gan yr athrawon a'i safoni'n allanol.

U2 Uned 3

Aseiniad wedi'i osod yn allanol - Asesiad diarholiad
24% o'r cymhwyster 100 marc
Yn cynnwys **dwy** ran:
Rhan 1: Cyfnod gwaith paratoi
• Rhyddheir y deunyddiau ar gyfer yr aseiniad a osodwyd yn allanol iddysgwyr o 1 Chwefror (yn ail flwyddyn y cwrs) a byddant yn cynnwys cyfres o ysgogiadau gweledol ac ysgrifenedig.
• Bydd un o'r ysgogiadau yn cael ei ddewis gan y dysgwr a bydd yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn. Bydd hyn wedyn yn mynnu ymateb personol.
• Mae'r ymatebion hyn yn cael eu datblygu yn ystod y cyfnod gwaith paratoi. Bydd yr ymatebion ar ffurf gwaith paratoi/astudiaethau cefnogol yn feirniadol, ymarferol a damcaniaethol. Defnyddir y gwaith hwn wedyn wrth wireddu'r syniadau yn yr astudiaeth ddwys a manwl 15 awr.

***Rhan 2: Cyfnod o waith dwys a manwl* 15 awr**
• Rhaid cwblhau'r broses o wireddu syniadau'r dysgwyr o'r gwaith paratoi yn ystod y 15 awr hyn a rhaid iddyn nhw ddangos y cysylltiad rhwng eu cynlluniau a'r canlyniad/au a gafwyd.
• Rhaid cwblhau'r cyfnod o waith dwys a manwl dan amodau dan oruchwyliaeth. Asesir y gwaith paratoi a'r gwaith dwys a manwl gyda'i gilydd, gan ddefnyddio'r amcanion asesu.
Bydd gofyn i ddysgwyr ddethol, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith i'w asesu. CBAC fydd yn gosod yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, sy'n cael ei asesu gan yr athrawon a'i safoni'n allanol.

Mae'r cwrs yma yn addas ond nid o reidrwydd, ar gyfer disgyblion sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y celfyddydau gweledol neu faes sy'n gysylltiedig a hynny. Rydym yn annog ein disgyblion i wneud ceisiadau ar gyfer cyrsiau Sylfaen mewn Celf a Dylunio neu ar gyfer cyrsiau gradd.
Cynigir sialens creadigol i ddisgyblion lle bydd disgwyl iddynt weithio yn gyson gartref ac o fewn ystafelloedd yr adran er mwyn datblygu sgiliau a syniadau. Mae llawer o fwynhad a boddhad i'w gael o'r gwaith ymarferol a chreadigol yma gydag arddangosfa o uchafbwyntiau o'u hymdrechion yn cael ei gynnal yn yr ysgol bob blwyddyn.

Teithiau
Ymweliadau

ADDYSG GORFFOROL L3

Cyflwyniad / Amcanion y Cwrs

Cwrs cyffrous sy'n sialens i unrhyw un sydd â diddorbdeb mewn Addysg Gorfforol i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn ystod o weithgareddau corfforol. Ceir cyfle i wella perfformiad, hyfforddi a dyfarnu mewn dewis o weithgareddau, drwy waith ymarferol yn ogystal ag astudiaeth o'r holl agweddau sy'n arwain at wella perfformiad corfforol.

Yn y flwyddyn gyntaf (bl.12) fe fydd angen cwblhau dau fodiwl AG1 a AG2, a fydd yn arwain at gymhwyster / tytsysgrif Uwch Gyfrannol (AS). Byddai ychwanegu modylau AG3 a AG4 (ym ml. 13) yn arwain at gymhwyster / tystysgrif Safon Uwch llawn.

Uwch Gyfrannol (AS)

UG Uned 1:
Archwilio addysg gorfforol
Arholiad ysgrifenedig: 1¾ awr 24% o'r cymhwyster 72 marc I asesu'r holl gynnwys pwnc
1. Ffisioleg ymarfer corff (exercise), dadansoddi perfformiad ac ymarfer (training)
2. Seicoleg chwaraeon
3. Caffael sgiliau
4. Chwaraeon a'r gymdeithas
UG Mathau o gwestiynau Cwestiynau wedi'u cyd-destunoli i gynnwys cwestiynau dewis lluosog, ymateb i ddata, byr ac estynedig

UG Uned 2: Gwella perfformiad personol mewn addysg gorfforol
Asesiad di-arholiad 16% o'r cymhwyster 48 marc I asesu
- **perfformiad ymarferol mewn un gweithgaredd fel chwaraewr/perfformiwr**
- **perfformiad ymarferol fel hyfforddwr neu ddyfarnwr**
- **Proffil Perfformiad Personol**

Safon Uwch (A2)
Unedau Safon Uwch (Unedau UG yn ogystal â 2 Uned arall)

1. Ffisioleg ymarfer corff (exercise), dadansoddi perfformiad ac ymarfer (training)
2. Seicoleg chwaraeon
3. Caffael sgiliau

4. Chwaraeon a'r gymdeithas

U2 Uned 3: Gwerthuso addysg gorfforol Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 36% o'r cymhwyster 90 marc I asesu'r holl gynnwys pwnc

Safon Uwch Mathau o gwestiynau Amrywiaeth o gwestiynau i gynnwys cwestiynau ymateb i ddata, byr ac estynedig

U2 Uned 4: Mireinio perfformiad personol mewn addysg gorfforol Asesiad di-arholiad 24% o'r cymhwyster 60 marc I asesu
- **perfformiad ymarferol mewn un gweithgaredd fel chwaraewr/perfformiwr, hyfforddwr neu ddyfarnwr**
- **Ymchwil Ymchwiliol**

Trefniadau Asesu/Sgiliau Allweddol

Asesir un rhan o'r cwrs UG yn fewnol a'i safoni'n allanol a'r rhan arall yn allanol (papur 1awr 45 mun).
Asesir y cwrs SU drwy gyfuno marciau UG ac asesiad mewnol (safoni'n allanol) ac eto asesiad allanol (papur 2 awr).
Mae sgiliau allweddol yn rhan annatod o astudio Addysg Gorfforol gyda nifer o gyfleoedd i'w defnyddio a'u asesu e.e. cyfathrebu, datrys problemau, gweithio gydag eraill, gwella dysgu a pherfformiad.

- Byddai profiad o Addysg Gorfforol TGAU yn fanteisiol i'r ymgeisydd ond nid yn angenrheidiol.
- Nôd y cwrs yw i ddatblygu a chynnal eu mwynhad o Addysg Gorfforol a Chwaraeon, a'u diddordeb ynddo.
- Datblygu a chymwyso eu sgiliau mewn gwahanol rolau, fel perfformiwr, arweinydd a dyfarnwr.
- Mae dilyn y cwrs yma yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd swyddi e.e. hyfforddi, dysgu, rheolaeth hamdden a chwaraeon, meddygaeth chwaraeon.

FFRANGEG L3



Ydych chi'n hoffi trafod, dadlau a sgwrsio? Ydych chi'n hoffi dysgu am wledydd a diwylliannau eraill a datblygu sgiliau bydd gyda chi drwy gydol eich oes, beth bynnag eich gyrfa? Ydych chi'n chwilio am gwrs sydd yn rhoi her ac sydd yn ddeniadol iawn i brifysgolion a chyflogwyr? Mae astudio Ffrangeg yn cyflawni'r rhain i gyd, a llawer mwy.

Uwch Gyfrannol

Cewch gyfle i ddysgu am, a thrafod, y themau diddorol a chyfoes canlynol:

- **Byw fel person ifanc mewn cymdeithas Ffrangeg ei hiaith**: strwythur y teulu, gwerthoedd traddodiadol a modern, cyfeillgarwch / perthnasoedd, problemau ymysg yr ifanc, addysg a byd gwaith

- **Deall y byd Ffrangeg**: Diwylliant a threftadaeth ranbarthol yn Ffrainc ac mewn gwledydd Ffrangeg eu hiaith e.e Ffrainc, Canada, y Swistir a'r Dom-toms. Byddwch hefyd yn dysgu am lenyddiaeth, celfyddyd, ffilm a cherddoriaeth yn y byd Ffrangeg ei iaith.

Byddwch yn dysgu sut i fynegi barn ar y themau hynny yn Ffrangeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Byddwch hefyd yn cymharu agweddau yn y Deyrnas Unedig, yn Ffrainc a gwledydd eraill lle siaredir y Ffrangeg. Fel rhan o'r cwrs UG, byddwch yn astudio a thrafod ffilm Ffrengig.

Safon Uwch

Os ydych yn penderfynu parhau â'ch astudiaethau Ffrangeg ym mlwyddyn 13 byddwch yn datblygu'r gallu i drafod themau cyfoes mwy cymhleth:

- **Amrywiaeth a Gwahaniaeth:** mudo ac integreiddio, hunaniaeth ddiwylliannol ac ymyleiddio, dathlu gwahaniaeth a chyfoethogi diwylliannol
- **Ffrainc 1940-1950 Y Goresgyniad a'r blynyddoedd wedi'r rhyfel:** Goresgyniad, rhyddid a diwedd yr Ail Ryfel Byd, bywyd yn Ffrainc yn ystod y cyfnod hwn a'r dimensiwn diwylliannol, 1945-1950 - ailadeiladu ac ailstrwythuro, ôl-effeithiau ar gyfer Ffrainc heddiw.
- Elfen ddiddorol a phwysig arall o gwrs blwyddyn 13 yw'r cyfle i astudio o leiaf un nofel Ffrengig. Hefyd, bydd yna brosiect ymchwil annibynnol, sy'n rhoi cyfle i chi ddewis maes o ddiddordeb personol sy'n ymwneud â'r gwledydd neu'r cymunedau lle mae Ffrangeg yn cael ei siarad.

Arholiadau **Uwch Gyfrannol (UG)**

Uned 1:	Trafodaeth lafar o 2 thema UG Dadlau safbwynt a thrafodaeth yn seiliedig ar gardiau ysgogi	30% o UG	(12% o'r cymhwyster) (12 –15 munud)
Uned 2:	Gwrando, darllen a chyfieithu (cyfieithu o Ffrangeg i'r Gymraeg)	37% o UG	(15% o'r cymhwyster) (1 awr 30 munud)
Uned 3:	Traethawd yn Ffrangeg yn seiliedig ar ffilm	33% o UG	(13% o'r cymhwyster) (1 awr 30 munud)

Lefel Uwch (A2)

Uned 4:	Cyflwyniad a thrafodaeth lafar. Prosiect ymchwil annibynnol	30% o A2 (11-12 munud)
Uned 5:	Gwrando, darllen a chyfieithu (cyfieithu o Gymraeg i Ffrangeg)	38% o A2 (1 awr 45 munud)
Uned 6:	Ymateb beirniadol i nofel (2 gwestiwn traethawd)	32% o A2 (1 awr 30 munud)

Mae siarad un iaith yn eich gosod ar goridor bywyd. Mae ddwy iaith yn agor bob drws ar hyd y ffordd.

. . . .

Frank Smith



HANES L3

Cyflwyniad

Mae'r cwrs Uwch Gyfrannol a Safon Uwch Hanes yn gyffrous ac yn amrywiol. Rhoddir y cyfle i'r rhai sydd am barhau â'u hastudiaethau neu am ail gydio yn y pwnc. Mae Hanes, yn ei hanfod, yn bwnc sy'n gofyn i ymgeiswyr ymchwilio gweithredoedd aelodau cymdeithasau'r gorffennol a thrwy hynny, godi cwestiynau ynglŷn â gorwelion, cymhellion ac ymatebion y bobl hynny. Trwy astudio cymdeithasau o'r fath o'r gorffennol, dros gyfnod cymharol faith mewn cyfnod astudio o gan mlynedd neu fwy, ac mewn astudiaeth fanwl, bydd ymgeiswyr yn cael cyfleoedd i ystyried nifer o faterion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol.

Amcanion y Cwrs

Uwch Gyfrannol (AS)

Uned 1:

Llywodraeth, Gwrthrhyfel a Chymdeithas yng Nghymru a Lloegr 1485-1603 (astudiaeth o gyfnod).

- Astudiaeth o'r newidiadau gwleidyddol, crefyddol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a Lloegr ynghyd â'r protestiadau a'r gwrthrhyfeloedd yn erbyn Y Tuduriaid.
- Arholiad Ysgrifenedig 1awr 30munud
- 20% o'r cymhwyster





Uned 2:

Yr Almaen – Democratiaeth i Unbennaeth 1918-45 (astudiaeth fanwl).

- Yr Almaen 1918-1933 - heriau Gweriniaeth Weimar.
- Arholiad Ysgrifenedig 1awr 45munud
- 20% o'r cymhwyster

Safon Uwch (A2)

Uned 3:

CANRIF YR AMERICANWYR tua 1890-1990 (astudiaeth eang a thematig).

- **Brwydro dros Hawliau Sifil .1890-1990**
- **Ffurfio Pŵer Mawr, tua 1890-1990**

- Astudiaeth thematig o'r newidiadau gwleidyddol a'r protestiadau i sicrhau'r dwiygiadau cyfansoddiadol.
- +Arholiad Ysgrifenedig 1awr 45munud –Dau draethawd agored sy'n cynnwys un cwestiwn synoptig
- 20% o'r cymhwyster

Uned 4 (rhan 2):

Yr Almaen – Democratiaeth i Unbennaeth 1933-45 (astudiaeth fanwl).

- Astudiaeth o bolisiau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a thramor.
- Arholiad Ysgrifenedig 1awr 45munud
- 20% o'r cymhwyster

Uned 5:

Dehongliadau Hanesyddol

- Astudiaeth annibynnol o gwestiwn sy'n seiliedig ar ddehongliad hanesyddol (3,000-4,000 o eiriau).
- Asesiad mewnol
- 20% o'r cymhwyster - 60 marc

Allgyrsiol

- Taith i Lundain i ymweld gyda'r Senedd a'r 'Imperial War Museum'.
- Cyfle i ddau ddisgybl gyfrannu i brosiect 'Lessons from Auschwitz'.
- Taith Hanes i'r Amerig yn Hydref 2016
- Darlithoedd allanol ar y pynciau a astudir
- Arwain gwasanaethau ysgol gyfan ar ddiwrnod cofio'r Holocaust a diwrnod cofio diwedd y Rhyfel Mawr.

Pam astudio Hanes ?

O ganlyniad i'r sgiliau y mae Hanes yn eu meithrin a hyrwyddo, mae'r cymhwyster yn atyniadol i gyflogwyr a chyniga rhywbeth i bob swydd. Mae Hanes yn fanteisiol ar gyfer swyddi Cyfreithwyr, Archifwyr, Newyddiadurwyr, Llyfrgellwyr, Gweision Sifil, Athrawon, Heddlu, Lluoedd Arfog a Swyddi Rheoli.

MATHEMATEG L3

Cyflwyniad/Amcanion y Cwrs

Bydd y cyrsiau UG a Safon Uwch a ddarparir gan yr ysgol yn annog yr ymgeiswyr i :

- ddatblygu'r ddealltwriaeth o Fathemateg a phrosesau mathemategol mewn ffordd sy'n magu hyder ac yn ennyn mwynhad;
- ddatblygu'r gallu i resymu ac i adnabod rhesymu anghywir, i gyffredinoli ac i adeiladu prawf mathemategol;
- ymestyn ei ystod o arddulliau a sgiliau mathemategol ac i'w defnyddio yng nghyswllt problemau mwy anodd ac anstrwythuredig;
- ddatblygu dealltwriaeth o gydlyniad a dilyniant ym Mathemateg ac o sut mae gwahanol destunau Mathemateg yn cysylltu â'i gilydd;
- adnabod sut all sefyllfa gael ei gynrychioli yn fathemategol ac i ddeall y berthynas rhwng problemau "y byd go iawn" a modelau mathemategol safonedig eraill a sut y gellir gwella a mireinio'r rhain;
- ddefnyddio Mathemateg yn effeithlon fel ffordd o gyfathrebu;
- ddarllen a deall dadleuon mathemategol ac erthyglau sy'n ymwneud â chymwysiadau o fathemateg;
- ddefnyddio technoleg fel cyfrifianellau a chyfrifiaduron lle bo'n addas, adnabod pryd mae eu defnydd yn anaddas, a bod yn ymwybodol o'u cyfyngiadau;
- ddatblygu ymwybyddiaeth o berthnasedd Mathemateg i feysydd astudiaeth eraill, i'r byd gwaith ac i'r gymdeithas yn gyffredinol;
- gymryd cyfrifoldeb cynyddol am addysgu eu hunain ac am werthusiad eu datblygaeth mathemategol.

Cynnwys y Cyrsiau:

Uwch Gyfrannol:
UG Uned 1 Mathemateg Bur A (25%)
UG Uned 2 Mathemateg Gymhwysol A (15%)
Adran A: Ystadegaeth
Adran B: Mecaneg

Uwch:
U2 Uned 3 Mathemateg Bur B (35%)
U2 Uned 4: Mathemateg Gymhwysol B (25%)
Adran A: Ystadegaeth
Adran B: Hafaliadau Differol a Mecaneg

Trefniadau Asesu

- Rhoddir gwaith cartref yn gyson sy'n cael ei asesu'n fewnol. Mae'n hollbwysig bod y gwaith cartref yn cael ei gwblhau, mae dilyniant yn y cynllun gwaith.
- Arholiadau yn amrywio - 1awr 45 munud i'r Cymhwysol a 2awr 30 munud i'r Pur.
- Unedau ar gael i sefyll bob Haf

Gwybodaeth Gefndirol

Disgwylir bod myfyrwyr sy'n cychwyn ar naill ai cwrs UG neu Safon Uwch llawn wedi derbyn gradd Mathemateg TGAU o B neu well. Disgwylir iddynt fod yn hyderus wrth ddefnyddio a chymhwyso'r mwyafrif o gynnwys o'r cwrs Mathemateg TGAU Haen Uwch. Disgwylir bod myfyrwyr sy'n cychwyn ar gwrs Safon Uwch Mathemateg Bellach wedi derbyn gradd Mathemateg TGAU o A*.

Cyfrifiannell
Fe fydd angen cyfrifianellau penodol ar gyfer y cyrsiau yma:

Casio Fx-991ex £25
neu
Texas Ti-30xPro £14/£15

Gwefannau Defnyddiol

www.mathscareers.org.uk www.furthermaths.org.uk
www.nrich.maths.org.uk www.cbac.co.uk

SEICOLEG L3

Beth yw Seicoleg?

- Astudiaeth o'r meddwl
- Astudiaeth o ymddygiad.
- Astudiaeth o ddadansoddi gwybodaeth ddynol.
- Astudiaeth o'r rhesymau pam fod pobl yn ymddwyn fel ag y maent.

Uwch Gyfrannol (AS)

Uned 1: Seicoleg o'r Gorffennol i'r Presennol:

Cwestiynau yn ymwneud â phum ymagwedd mewn seicoleg, therapïau a darnau clasurol o ymchwil.

20% : arholiad 1 awr a hanner.

Uned 2: Archwilio Ymddygiad:

Adran A: Dadl gyfoes.

Adran B: Egwyddorion ymchwil (gan gynnwys Milgram a Kohlberg).

Adran C: Cymhwyso dulliau ymchwil at senario newydd.

20% : arholiad 1 awr a hanner.

Safon Uwch (A2)

Uned 3: Goblygiadau yn y Byd Real:

***Adran A*:** Astudio ymddygiadau.

Adran B: Materion dadleuol mewn seicoleg.

40% : arholiad 2 awr a hanner

Uned 4: Dulliau Ymchwil Cymhwysol:

Adran A: Ymchwiliad personol.

Adran B: Cymhwyso dulliau ymchwil at senario newydd.

20% : arholiad 1 awr a hanner

Pam astudio Seicoleg?

Mae gan Seicoleg rhan allweddol mewn addysgu gydol oes, a gall y sgiliau a ddatblygir cyd-fynd â nifer o bynciau dyniaethol neu wyddonol. Mae'r cwrs yn addas ar gyfer rhai sydd am astudio Seicoleg ymhellach neu meysydd;

- Seicolegydd Addysg
- Seicolegydd Clinigol
- Seicolegydd mewn Sefydliad
- Seicoleg Hysbysebu a Marchnata.
- Seicoleg Chwaraeon
- Seicolegydd Troseddol.

Cyfrifiadureg UG ac UWCH

Hyd y Cwrs

Uwch Gyfrannol = 1 flwyddyn / Uwch = 2 flynedd (UG+1)

Gofynion Mynediad	Cymhwyster	Bwrdd Arholi
TGCh TGAU: Gradd A neu'n uwch Mathemateg TGAU neu Cyfrifiadureg TGAU: Gradd B neu'n uwch	Graddau A – E (Uwch Gyfrannol) / Graddau A* – E (Uwch)	CBAC (www.cbac.co.uk)

Disgrifiad o'r Cwrs

Defnyddir cyfrifiaduron ym mhob agwedd o waith y llywodraeth, busnes, diwydiant, addysg, hamdden ac yn y tŷ. Mewn oes technolegol, mae astudio Cyfrifiadureg ac, yn bennaf, sut y gellir defnyddio cyfrifiaduron i ddatrys amryw o broblemau, yn hanfodol. Nid dim ond er lles y myfyrwyr eu hun, ond hefyd ar gyfer dyfodol buddiol ein gwlad.

Mae Cyfrifiaduro yn integreiddio yn dda â phynciau ar draws y cwricwlwm. Prif gofynion y cwrs yw i:

- ddatblygu disgyblaeth rhesymegol a dychymyg creadigol wrth ddewis a dylunio algorithmau, yn ogystal â ysgrifennu, profi a ddadfygio rhaglenni
- dibynnu ar ddealltwriaeth o reolau'r iaith ar lefel syml
- codi ymwybyddiaeth o reolaeth a threfn systemau cyfrifiadurol
- datblygu gweledigaeth y myfyrwyr ar gyfer bywyd ar ôl gadael yr ysgol.

Mae yna gydnabyddiaeth fod Cyfrifiadureg yn cynnwys corff sylweddol o wybodaeth defnyddiol. Ac felly pwrpas yr arholiadau Safon Uwch a Uwch Gyfrannol yw i gydnabod y gwaith caled a wneir gyda chymhwyster gwerthfawr sy'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n bwriadu dilyn gyrfa mewn naill ai y gwyddorau neu'r celfyddydau, yn ogystal â Chyfrifiaduro.

Mae Cyfrifiaduro yn bwnc sy'n hybu'r ymgeiswyr i ystyried materion moesol, cymdeithasol, diwylliadol, cyfoesol yn ogystal â materion am yr unigolyn.

Cynnwys y Cwrs a Dulliau Asesu / Arholiad

UG	Uned 1 Arholiad Ysgrifenedig 2 awr (25.0%)
UG	Uned 2 Tasg ar-sgrin Rhaglenni 2 awr (15.0%)
UWCH	Uned 3 Arholiad Ysgrifenedig 3 awr (20.0%)
UWCH	Uned 4 Arholiad Ysgrifenedig 3 awr (20.0%)
UWCH	Uned 5 Gwaith Cwrs ar topig o dewis chi (20.0%)

Llwybrau'r Dyfodol

Mae'r cwrs yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Cyfrifiaduro neu faes perthynol, trwy gyfrwngamrediad o gyrsiau addysg uwch / galwedigaethol (e.e. Gwyddor Cyfrifiadur, Cyfrifiaduro, Peirianneg Meddalwedd) neu fynediad uniongyrchol i fyd gwaith. Mae'r cwrs hefyd yn cynnig astudio cydlynol, gwerthfawr, sy'n rhoi boddhad, i fyfyrwyr nad ydynt yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc ymhellach.

CERDDORIAETH

MANYLEB A GOFYNION ARHOLIADAU cychwyn Medi 2016

UWCH GYFRANNOL [40%] A2 UWCH [60%]

Cyd – Bwyllgor Addysg Cymru

UNED 1: Perfformio Cerddoriaeth
UNED 2: Cyfansoddi Cerddoriaeth
UNED 3: Gwerthuso Cerddoriaeth

UNED 4: Perfformio Cerddoriaeth [Arbenigedd]
Perfformio Cerddoriaeth B
UNED 5: Cyfansoddi Cerddoriaeth A
Cyfansoddi Cerddoriaeth B (Arbenigedd]
UNED 6: Gwerthuso Cerddoriaeth

CRYNODEB O'R ASESIAD

UG (3 uned) – 40%

Uned 1 Perfformio 12% Asesiad allanol
Unawd a/neu/ berfformiad ensemble- lleiafrif o 2 ddarn
Dylai hyd y perfformiad fod rhwng 6-8 munud
Dylai un darn adlewyrchu maes astudio dewisedig [Traddodiad Clasurol y Gorllewin/ Roc a pop
Theatr Gerdd/ Jazz]
Asesiad gan arholwr allanol

Uned 2 Cyfansoddi 12% Asesiad Mewnol
Dau ddarn- ffolio
Dylai cyfanswm perfformio'r ddau gyfansoddiad fod rhwng 3 a 6 munud o hyd
Un cyfansoddiad yn arddangos y technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin- teitl/ briff wedi ei osod gan CBAC [o leiaf un funud o hyd]
Un cyfansoddiad rhydd i'w asesu gan yr athro a'i safoni gan y Bwrdd [o leiaf 3 munud o hyd]

Uned 3 Gwerthuso 16% Asesiad allanol
Un papur gwrando – tua 1½ awr o hyd
Dau faes astudiaeth -
A : Traddodiad Clasurol y Gorllewin
Y SIMFFONI 1760-1830 [Simffoni rhif 103 'Drum Roll' Haydn – Symudiad 1 a 2]

neu CERDDORIAETH GORAWL CREFYDDOL 1730-1800 [rhannau o Requiem Mozart]
B: Roc a Pop 1965-1990, yn cynnwys funk, disco, roc trwm, soul, canu gwlad
NEU C: Theatr Gerdd - Cole Porter, Richard Rodgers, Claude –Michel Schonberg, Andrew Loyd Webber
NEU CH: Jazz 1940-1965, yn cynnwys 'big-band', swing, be-bop a cool

Safon Uwch – 3 Uned 60%

Naill ai Uned 4(A) Perfformio 22% Asesiad allanol
Unawd a/neu berfformiad ensemble- lleiafrif o 3 darn [**rhaid** i un ohonynt fod yn unawd]
Dylai hyd y perfformiad fod rhwng 10-12 munud
Dylai un darn adlewyrchu un maes astudio
Dylai o leaif un darn arall adlewyrchu maes astudio gwahanol arall
Asesiad gan arholwr allanol

Neu Uned 4(B) Perfformio 14 % Asesiad allanol
Unawd a/neu berfformiad ensemble- lleiafrif o 2 ddarn
Dylai hyd y perfformiad fod rhwng 6-8 munud
Dylai un darn adlewyrchu un maes astudio
Asesiad gan arholwr allanol

Naill ai Uned 5(A) Cyfansoddi 14% Asesiad allanol
Dau ddarn – ffolio
Darn I – o leiaf 1 munud o hyd, yn ymateb i briff/ teitl a osodwyd gan CBAC, yn arddangos y technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin
Darn 2- cyfansoddiad rhydd, o leiaf 2 funud o hyd.
Dylai cyfanswm perfformio'r ddau gyfansoddiad fod rhwng 3 -6 munud o hyd
I'w asesu gan yr athro a'i farcio'n allanol
Neu Uned 5(B) Cyfansoddi 22% Asesiad allanol
Tri darn -ffolio
Darn I – o leiaf 1 munud o hyd, yn ymateb i briff/ teitl a osodwyd gan CBAC, yn arddangos y technegau a'r confensiynau sy'n gysylltiedig â Thraddodiad Clasurol y Gorllewin
Darn 2- cyfansoddiad yn adlewyrchu maes astudio gwahanol - o leiaf 2 funud o hyd
Darn 3- cyfansoddiad rhydd o leiaf 2 funud o hyd
I'w asesu gan yr athro a'i farcio'n allanol

Uned 6(A) Gwerthuso) 24% Asesiad allanol
Un arholiad ysgrifenedig (2 ¼ awr)